

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod	14 Hydref 2021
Aelod Arweiniol	Y Cynghorydd Bobby Feeley
Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen	Y Cynghorydd Christine Marston
Swyddog	Phil Gilroy (Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol)
Awduron yr adroddiad	Katie Newe (Rheolwr Gwasanaethau i Gleientiaid) a Jeni Andrews (Swyddog Comisiynu a Chynllunio)
Teitl	Meifod Wood Products

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa bresennol ym Meifod, ymarfer ymgysylltu diweddar gyda rhanddeiliaid o flaenoriaeth, a dewisiadau posib ar gyfer dyfodol Meifod.

1.2. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhelliad gan y Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau a sefydlwyd gan y Pwyllgor hwn i ystyried cynigion ar gyfer moderneiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn fewnol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I amlinellu'r sefyllfa bresennol ym Meifod.

2.2. I wneud Aelodau yn ymwybodol o'r broses ymgysylltu, manylion ar yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid o flaenoriaeth a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i ddyfodol Meifod.

2.3. I grynhoi'r dewisiadau posib i Aelodau eu hystyried.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Aelodau yn ystyried y problemau y mae Meifod yn ei wynebu.

3.2. Bod Aelodau yn ystyried yr adborth gan y rhanddeiliaid hynny sydd wedi cymryd rhan yn yr ymarfer ymgysylltu, a hynny cyn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet.

3.3. Bod Aelodau yn ystyried y manteision, anfanteision a'r risgiau yn gysylltiedig â'r dewisiadau posib (o fewn cyd-destun 3.1 a 3.2) ac i adrodd ar eu safbwyntiau i'r Cabinet.

3.4. Bod Aelodau yn arbennig yn ystyried canlyniad canlynol y Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau:

“Cytunwyd: bod, ar ôl ystyried y problemau y mae Meifod yn ei wynebu a'r heriau yn gysylltiedig â'r ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, ynghyd â'r adborth a dderbyniwyd gan y rhanddeiliaid hynny wnaeth gymryd rhan yn yr ymarfer ymgysylltu, yn ogystal â'r manteision, anfanteision a'r risgiau yn gysylltiedig â'r dewisiadau posib sy'n cael eu cyflwyno, bod y Grŵp yn cymeradwyo i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ei fod yn ei argymhell i'r Cabinet fod –

Meifod yn cael ei ail-agor fel gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan y Cyngor, gyda llai o weithgareddau a ffyrdd newydd o weithio (fel yn Opsiwn 1 yn Atodiad 7 o'r adroddiad); a bod gwaith yn cael ei ddechrau i sicrhau sefydliad/menter gymdeithasol allanol i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i bobl o'r adeilad Meifod presennol (efallai mai nid gweithgareddau gwaith coed a fydd yn cael eu cynnig) gyda'r bwriad o edrych ar gynaliadwyedd hirdymor Meifod (fel yn Opsiwn 2 yn Atodiad 7 o'r adroddiad).”

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 **Cefndir:** Mae Meifod yn wasanaeth cyfleoedd gwaith wedi'i reoli gan Gyngor Sir Ddinbych i oedolion gydag Anableddau Dysgu. Mae wedi'i leoli mewn uned ffatri yn Ninbych, gyda CSDd yn talu rhent blynyddol. Mae Meifod wedi datblygu enw da am y gwaith coed y maen nhw'n ei gynhyrchu a'i werthu a heb drïo wedi dod yn fusnes yn ogystal â gwasanaeth. Fodd bynnag, nod gwreiddiol Meifod oedd darparu cyfleoedd dysgu a datblygu sgiliau i'r bobl sy'n mynychu ac mae'r Cyngor wedi, ers

nifer o flynyddoedd, ei chael yn anodd cydbwysu'r galw cystadleuol o redeg busnes a gwasanaeth ar yr un pryd. Mae adolygiad 2019 o'r gwasanaethau wedi cynnig allanoli Meifod ond daeth y gwaith i stop oherwydd gorfod adleoli staff Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.

4.2 **Y sefyllfa bresennol:** Caewyd Meifod ar ddiwedd Mawrth 2020 oherwydd y cyfnod clo ac fe gafodd staff eu hadleoli neu'n hunanyysu. Dydi Meifod heb allu ail-agor. Mae'r rhesymau dros ohirio'r weithred o ail-agor Meifod wedi'i amlinellu yn **atodiad 1 (materion presennol)**. Cyn y gellir gwneud penderfyniad i ail-agor, mae'r Cyngor angen ystyried ac adolygu dyfodol hirdymor Meifod, gan gymryd i ystyriaeth y gost o ail-agor, a'r costau refeniw cynyddol, ynghyd â safbwyntiau'r rhanddeiliaid perthnasol ac effaith y newidiadau. Tra bod Meifod yn parhau i fod ar gau mae GCC yn gweithio i sicrhau fod yr unigolion wedi'u heffeithio yn cael profi cyfleoedd eraill. Dydi rhai unigolion ddim yn dymuno dychwelyd i Meifod tra bod eraill yn awyddus i'r gwasanaeth ail-agor.

4.3 **Ymgysylltu:** Gwyddwn fod gan nifer o bobl safbwyntiau cryf am werth y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Meifod. Y flaenoriaeth sydd wedi bod yw ymgysylltu â phobl a fyddai wedi cael eu heffeithio fwyaf gan unrhyw newidiadau i weithgareddau wedi'u hariannu gan ofal cymdeithasol yn Meifod, yn bennaf, pobl sydd wedi mynychu Meifod, eu teuluoedd a staff sy'n gweithio yno neu'n atgyfeirio pobl yno. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi bod yn heriol. Mae cydlynu'r gwaith hwn wedi bod yn anodd yn ystod y gwyliau haf, ond nid oedd modd gohirio'r gwaith ymgysylltu hwn tan yr Hydref gan y byddai'n gohirio'r penderfyniad ar ddyfodol Meifod ymhellach. Mae manylion llawn o'r ymarfer ymgysylltu i'w cael yn **atodiad 2 – ymgysylltu**.

4.4 **Adborth o'r ymgysylltu:** Mae teuluoedd a staff wedi ymateb mewn gwahanol ffyrdd. Mewn rhai achosion mae nifer o arolygon wedi eu llenwi gan wahanol aelodau o deulu'r un unigolyn. Mae teuluoedd/gofalwyr i 12 o bobl wedi dewis peidio ag ymateb. Mae 7 o ddinasyddion wedi cymryd rhan mewn ymgysylltiad wyneb yn wyneb, ar-lein, dros y ffôn ac ymgysylltiad 1:1 wedi'i hwyluso gan sefydliad eiriolaeth annibynnol. (Gweler **atodiadau 3, 4, 5a a 5b – darganfyddiadau'r ymgysylltu** ar gyfer amlinelliad o'r adborth.) Gan gymryd i ystyriaeth y cyfraddau ymateb isel a'r heriau gyda'r broses ymgysylltu, y negeseuon yw:

- Mae dinasyddion sydd wedi ymgysylltu wedi mynegi eu bod nhw'n gwerthfawrogi Meifod a natur benodol y gwaith yr oedden nhw'n ei wneud ym Meifod. Roedden

nhw hefyd yn ei gweld yn anodd dychmygu dewisiadau gwaith eraill i ddyheu ar eu cyfer, ond hefyd yn nodi nad oes digon o ddewis pan ddaw hi'n fater o wneud pethau gwahanol.

- Mae teuluoedd a gofaluwr yn gwerthfawrogi Meifod am eu hystod eang o resymau. Mae bron iawn pob ymatebwr yn teimlo ei bod yn bwysig iawn i'r person yr oedden nhw'n gofalu amdano i gael trefn feunyddiol ac i deimlo fel eu bod nhw'n rhan o weithlu gyda gwaith i'w gyflawni. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod y math o weithgareddau sy'n cael eu cynnig a'r staff yn bwysig iawn. Mae rhai o'r ymholiadau a phryderon ychwanegol a godwyd gan rai teuluoedd yn dynodi fod cyfran o fynychwyr Meifod wedi cael eu heffeithio'n sylweddol, a hynny'n gorfforol ac yn emosiynol drwy beidio â mynychu Meifod.
- Mae'r holl staff sydd wedi ymateb yn teimlo fod dysgu sgiliau newydd yn bwysig iawn, a bron iawn pawb yn teimlo fod sgiliau'r staff a'r rheolwyr yn bwysig iawn.
- Yr hyn sy'n llai eglur yw'r rhesymau pam fod rhai pobl ddim eisiau dychwelyd i Meifod.

4.5 **Galw ar gyfer y dyfodol:** Mae GCC angen ystyried newidiadau i'r lefel a'r math o alw.

- Yn y 2 flynedd cyn y cyfnod clo roedd y nifer o bobl yn mynychu Meifod wedi lleihau o oddeutu 31 i tua 21 (cofrestrau o 2018 i 2020).
- Mae'r nifer o sesiynau yr oedd rhai pobl yn ei mynychu ym Meifod wedi lleihau hefyd (cofrestrau o 2012 i 2020).
- O'r 24 o bobl yn mynychu Meifod cyn y cyfnod clo, mae 7 wedi dweud yn ddiweddar nad ydyn nhw'n dymuno mynychu Meifod rhagor a 2 arall wedi dweud eu bod nhw'n nerfus am ddychwelyd tra bod hi'n bosib dal Covid yn y gymuned.
- Mae atgyfeiriadau newydd i Meifod wedi lleihau yn sylweddol ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn 2014. Wrth ymateb i'r Ddeddf mae dinasyddion wedi cael eu hannog a'u cefnogi i gael mynediad i weithgareddau yn seiliedig yn y gymuned (prif ffrwd) yn hytrach na chael eu darparu gyda gwasanaethau statudol.
- Mae cyfweiliadau gyda Gweithwyr Cymdeithasol yn 2018 yn dangos eu bod nhw'n fwy tebygol o gyfeirio dinasyddion at weithgareddau a phrosiectau anstatudol yn seiliedig yn y gymuned. Mae hynny wedi cael effaith ar yr holl Ddarparwyr – yn fewnol ac allanol.
- Mae newid demograffig yn golygu fod pobl ifanc gydag anabledau dysgu llym ag

anghenion iechyd cymhleth y fwy tebygol o oroesi i oedolaeth.

- Mae'r ffactorau hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar y nifer o bobl sy'n cael eu hatgyfeirio, ac ar anghenion yr unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio – mae niferoedd atgyfeirio wedi lleihau, ond mae cymhlethdod o ran anghenion y bobl hynny sy'n cael eu hatgyfeirio wedi cynyddu. Mae'r holl ffactorau hyn yn golygu fod y nifer o bobl sydd angen gwasanaeth gan Meifod rwan wedi lleihau o tua 31 o bobl yn 2018 i tua 16 o bobl rwan. Gweler **atodiad 6 (Dinasyddion Meifod)**. (DS: Roedd y rhan fwyaf yn mynychu gwasanaethau eraill hefyd).

4.6 **Dewisiadau ar gyfer dyfodol Meifod:** O ystyried yr amgylchiadau presennol, mae nifer o ddewisiadau i'w hystyried o ran dyfodol Meifod. Mae **Atodiad 7 (dewisiadau)** yn darparu crynodeb o'r manteision a'r anfanteision ar gyfer pob dewis, ynghyd ag amlinelliad o rai o'r risgiau.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cefnogi pobl gydag anableddau i ddysgu sgiliau newydd yn cefnogi'r flaenoriaeth i adeiladu cadernid ac annibyniaeth.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Cyn y pandemig byddai'r gost net flynyddol i CSDd i gynnal Meifod oddeutu £170,000 y flwyddyn. Roedd y costau gros o redeg y gwasanaeth yn uwch na hyn, ond roedd gwerthu cynnyrch pren gwerth oddeutu £64,000 wedi helpu i leihau'r costau. (2019/20)

6.2 Yn hanesyddol mae Meifod ynghyd â'r rhan fwyaf o waith mewnol a gwasanaethau cyfleoedd dydd wedi bod yn ddrytach (bob person i bob sesiwn) na gwasanaethau allanol tebyg (amcangyfrif o gostau unedau wedi'u hamlinellu yn nata adolygu 2018/19).

6.3 Mae'r gost o ail-agor a rhedeg Meifod yn mynd i fod yn uwch na chyn y pandemig. Mae nifer o resymau dros hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynnydd yng nghost deunyddiau crai ar gyfer cynnyrch pren – er enghraifft costau wedi cynyddu o 157% o £1220 i £3135 ar gyfer pecyn o goed

- Cynnydd mewn costau gwresogi – amcangyfrifwyd fod costau gwresogi yn ystod 2019/20 tua £5,500. Byddai'r costau hyn 50% yn uwch gyda system newydd.
- Lleihad mewn cynhyrchiant a gwerthiant gan fod llai o bobl yn mynychu.
- Mae'r rhent blynyddol yn mynd i gynyddu £8,000 y flwyddyn, i £33,000
- Llai o bobl yn mynychu sy'n golygu yn gymesurol bydd yn costio mwy (bob person) i ddarparu staff a bydd llefydd gwag oherwydd y lleihad mewn galw.

6.4 Mae unigolion sy'n byw gartref yn cael cynnig cefnogaeth arall trwy wasanaethau eraill sy'n bodoli. Mae hynny'n cynnwys oriau o gefnogaeth ychwanegol trwy adleoli staff wedi'u comisiynu, pobl sy'n byw mewn tai â chymorth yn cael eu cefnogi gan oriau ychwanegol y staff yn eu lleoliad byw â chymorth. Mae rhai unigolion wedi sicrhau gweithgareddau a gwasanaethau mewn sefydliadau eraill yn barod ac wedi dweud y byddai'n well ganddyn nhw barhau gyda'r sefydliad newydd. Mae oriau ychwanegol a gweithgareddau eraill yn cael eu hariannu gan y GCC.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Roedd yn bwysig cynnal yr ymarfer ymgysylltu er mwyn gwybod yr effaith posib y byddai'r newidiadau yn eu cael ar y rhanddeiliaid o flaenoriaeth. Rŵan bod y rhan cyntaf o'r broses ymgysylltu wedi'i gwblhau, mae grŵp rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu a fydd yn canolbwyntio ar gwblhau'r Asesiad o Effaith ar Les ac ar yr hyn y mae'r rhanddeiliaid o flaenoriaeth wedi'i ddweud am yr effaith yn sgil newidiadau posib. (Gweler **atodiad 8** ar gyfer cylch gorchwyl drafft.)

8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1 Mae ymgysylltu wedi cael ei ganolbwyntio ar rhanddeiliaid o flaenoriaeth am y rhesymau a nodwyd uchod.
- 8.2 Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor i ystyried moderneiddio gwasanaethau gofal mewnol wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r argymhelliad wedi'i gynnwys ym Mharagraff 3.4.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad yn nodi'n glir y problemau a'r dewisiadau wrth symud ymlaen. Mae yna nifer o gyfyngiadau ynglŷn â'r hyn all ddigwydd, fel hyd y les sydd ar ôl, sy'n golygu bod cynnydd mewn costau tymor byr yn debygol. Fodd bynnag, mae dewisiadau ar gael gallai olygu lleihau'r faich ariannol yn y tymor canolig. Yn amlwg mae'n iawn i ystyried y dewisiadau hyn wrth ystyried canlyniadau'r holl ymgynghoriadau, a bydd cyllid yn ceisio gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth wrth symud ymlaen i gryfhau'r rhagolygon ariannol o'r dewisiadau amrywiol i helpu wrth wneud y penderfyniad terfynol.

10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r risgiau yn gysylltiedig â'r dewisiadau gwahanol ar gyfer Meifod wedi'u cynnwys yn **atodiad 7**.

10.2 Mae gan rai pobl safbwyntiau cryf am Meifod. Mae yna berygl fod unigolion a grwpiau sydd ddim yn rhanddeiliaid o flaenoriaeth yn cael y llais cryfaf ac/neu fod llais yr ychydig rai yn cael ei ystyried fel safbwynt llawer. Gall hynny olygu fod dyfodol y gwasanaeth ddim yn cael ei siapio gan y rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf neu gan ffactorau perthnasol eraill. Mae'r risg hwn wedi cael ei reoli drwy ganolbwyntio'r gwaith ymgysylltu cychwynnol ar gasglu safbwyntiau'r unigolion hynny sy'n defnyddio Meifod a'u teuluoedd a'u staff gan sicrhau nad safbwyntiau'r unigolion hynny sy'n ailadrodd eu cynrychiolaethau sy'n cael eu clywed a drwy ariannu eiriolaeth a chefnogaeth i helpu rhanddeiliaid o flaenoriaeth i ddweud eu barn. (Gweler **crynodeb risgiau yn atodiad 9**)

11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adrannau 7.4.1 a 7.4.2(d) o Gyfansoddiad y Cyngor.